Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd

anelu'nuchel

Trafod y Cwricwlwm a Chefnogi Democratiaeth y Dysgwr

Canllawiau i Bartneriaid

Mae **Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd** yn bartneriaeth unigryw rhwng Addysg Uwch a'r sector Gwirfoddol yn Rhanbarth y Cymoedd a Gorllewin Cymru sy'n gweithio at ddatblygu cyfleoedd priodol yn y gymuned i bobl gael dysgu gydol eu hoes. Nod y bartneriaeth yw ehangu'r nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn addysg uwch drwy ddod a dysg yn agosach i'w cartrefi a'i gwneud yn fwy perthnasol i bob rhan o'n cymunedau.

4 rhagymadrodd

4 ansawdd cwricwlwm

6 pam trafod y cwricwlwm

11 buddion dull democrataidd a dull a drafodwyd

12 heriau

16 astudiaethau achos

24 datganiad cenhadaeth

Partneriaid Strategol

Anturiaeth Dyffryn Aman
Adfywio Cymunedol Blaenllechau
Ymddiriedolaeth Datblygu Blaenymaes, Portmead a Phenplas
Strategaeth Cymuned Bryncynon
Ymddiriedolaeth Datblygu Cwmni Clydach
Gweithdy Dove, Banwen
Canolfan Hyfforddi Glyn Nedd
Adfywio Gurnos a Galon Uchaf
Partneriaeth Menter Penywaun
Partneriaeth Penrhys, Rhondda
Canolfan Tele ac Ysgol Fusnes, Porth
Ymddiriedolaeth Datblygu Tredegar
Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru
Ymddiriedolaeth Datblygu Ystalyfera
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Prifysgol Morgannwg
Prifysgol Cymru Casnewydd
Prifysgol Cymru Abertawe

Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd
rhwydwaith dysgu cymunedol a reolir gan
Adran Addysg Barhaus i Oedolion
Prifysgol Cymru Abertawe
Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP

www.swan.ac.uk/dace

Neges Gefnogaeth o Grŵp Cynllunio Partneriaeth PGC

"Mae dysgu gydol oes wedi tyfu i fod yn gawr addysgiadol, a mwy neu lai'n ymddangos ym mhob menter ehangu mynediad polisi. I'w droi yn realiti rhaid i brifysgolion a sefydliadau cymunedol osgoi partneriaethau gwag; yn hytrach, rhaid iddynt ymdrechu i wir rannu eu hadnoddau, athrawon a dysgwyr. Mae'r bartneriaeth PGC yn gwneud yr union beth hwn drwy ddyfeisio cyrsiau dychmygus, llunio strategaethau asesu gwahanol, a chroesawu pobl na fyddai fel arall yn ymgymryd â dysgu. Yn y llawlyfr hwn, cynigir cyfres o egwyddorion a chanllawiau amhrisiadwy. Maent yn ymddwyn fel model ar gyfer arfer da a nodyn atgoffa i bawb pan ddaw at hybu ein gwerthoedd addysgiadol craidd: dysgu am oes, dysgu am waith, dysgu i bawb."

Athro Colin Trotman – Pennaeth Adran Addysg Barhaol I Oedolion, Prifysgol Cymru Abertawe
Athro Danny Saunders - Pennaeth Canolfan Addysg Gydol Oes, Prifysgol Morgannwg
Mr Paul Nagle - Rheolwr Canolfan Tele ac Ysgol Fusnes Porth – ar ran Partneriaid Cymunedol
Mr Viv Davies - Pennaeth, Canolfan Cymuned ac Addysg Gydol Oes, Prifysgol Cymru Casnewydd
Dr Heather Graham - Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru

Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd

Trafod y Cwricwlwm a Chefnogi Democratiaeth y Dysgwr

Mae Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd yn ymroddedig i wella ansawdd dysgu ac addysgu yn barhaol er mwyn i fwy o bobl allu cyfranogi a chefnogi datblygiad i ddysgu uwch. Mae'r Bartneriaeth yn gweithio'n strategol i fwyhau adnoddau ar gyfer dysgu cymunedol o safon uchel dros ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Gwraidd yr ethos hwn yw cred ar y cyd yng ngwerth democratiaeth y dysgwr a buddion trafod cynllun y cwricwlwm a'r prosesau dysgu ac addysgu.

Datblygwyd y cyfarwyddyd hwn ar arfer da wrth reoli cwricwlwm drwy broses gydweithredol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n bartneriaid ac mae'n seiliedig ar eu profiad nhw o gefnogi dysgu cymunedol. Mae'n adeiladu ar y gwerthoedd a'r egwyddorion a amlinellir yng Nghanllawiau Arfer Da Partneriaeth PGC 'Anelu'n Uchel' * ac fe'i cyflwynir fel cyfraniad i'r broses o wella ansawdd. Nid yw'n ddatganiad cyflawn a byddem yn croesawu enghreifftiau pellach o arfer da.

* Am gopïau o 'Anelu'n Uchel' ymwelwch â'n gwefan **www.cuv.org.uk**

Ansawdd Cwricwlwm

Mae strategaeth sydd yn canolbwyntio ar ddatblygu dull cyffredin o ymdrin â'r cwricwlwm yn adlewyrchu gwerthoedd y Bartneriaeth PGC gan ein bod o'r farn bod darparu cwricwlwm o ansawdd yn chwarae rôl hanfodol wrth annog pobl i ddechrau dysgu ac wrth ysgogi dysgwyr presennol i ddatblygu a symud ymlaen drwy'r dewis o gyfleoedd dysgu.

Mae'r mater o sicrhau cwricwlwm effeithiol fodd bynnag, yn ehangach o lawer na chynnwys y cwrs. Rydym o'r farn bod cwricwlwm o ansawdd yn

un lle mae trafod, cefnogi'r dysgwr a democratiaeth y dysgwr wrth wraidd y strategaethau dysgu ac addysgu. Mi fydd hefyd yn bwysig anelu at gwricwlwm cytbwys, sydd yn adlewyrchu amrywiaeth dysgwyr cymunedol.

Mae dull cwricwlwm o ansawdd yn gofyn am ymrwymiad i ansawdd ym mhob elfen o brofiad y cwricwlwm ac yn ymgorffori prosesau megis:

- gweithgareddau **datblygu cymunedol** sydd yn galluogi trafod rhwng dysgwyr a darparwyr er mwyn nodi anghenion a disgwyliadau
- **adolygiadau cwricwlwm** yn cynnwys dysgwyr a darparwyr
- **cynllunio cwricwlwm** sydd yn cael ei ddiweddaru gan adborth a dadansoddiad gwerthuso ac anghenion parhaol y dysgwyr a'r tiwtoriaid
- dulliau **datblygu staff** sydd yn sicrhau strategaeth ddysgu ac addysgu democrataidd
- **deunyddiau cwricwlwm** sydd yn adlewyrchu amrywiaeth diwylliannol a hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd
- **dulliau asesu** sydd yn canolbwyntio ar y dysgwr a magu hyder yn hytrach na phwysleisio diffygion
- **cefnogi'r dysgwr** sydd yn gwella datblygiad y dysgwr megis gwybodaeth a chyngor, sgiliau astudio, sgiliau TGCh, mentora a chefnogaeth grwp cyfoed
- **adborth dysgwr/tiwtor** sydd yn gyfranogol ac amserol

Pam Trafod y Cwricwlwm?

Mae oedolion yn dysgu orau pan fydd dysgu:

- yn hyblyg ac yn berthnasol i anghenion
- yn gysylltiedig â materion o ddiddordeb a phrofiadau bywyd
- o fewn sefyllfa ddemocrataidd a chyfranogol

ac yn cynnig cyfleoedd i:

- archwilio opsiynau ac ehangu dewisiadau
- datblygu perchenogaeth o'r broses ddysgu

Mae'n well gydag oedolion amgylcheddau dysgu ac addysgu sy'n rhyngweithiol, yn annog perchenogaeth a thrafod o fewn y broses ddysgu a lle mae parch rhwng y dysgwr a'r tiwtor. Mae trafod y cwricwlwm yn broses naturiol os ydych yn ymroddedig i sicrhau democratiaeth y dysgwr. Hefyd, mae'n ddull buddiol i ddarparwyr dysgu, gan roi'r cyfle iddynt ddatblygu cwricwlwm wedi'i deilwra sy'n cwrdd â dyheadau dysgwyr a chynyddu ysgogiad i ddysgu a gwella lefelau cof da.

Cynllunio Cwricwlwm

Mae llawer o arfer da wrth reoli cwricwlwm yn bodoli eisoes dros y sector dysgu cymunedol. Mae nifer o sefydliadau yn gweithio'n arloesol ac yn effeithiol; yn denu dysgwyr newydd ac yn helpu lleihau anfantais economaidd ac allgáu cymdeithasol. Fodd bynnag, mae llawer mwy i'w gyflawni. Mae Partneriaeth PGC yn ymroddedig i weithio'n strategol i gefnogi'n bellach y datblygiadau arloesol sy'n gwrando ar ddysgwyr a chanolbwyntio ar ymateb i anghenion y dysgwr a'r gymuned.

Byddai'n fuddiol i ehangu dewis a fformat y cyfleoedd dysgu a gynigir i gymunedau. Dylai dewisiadau cwricwlwm fod yn gysylltiedig â diddordebau lleol ac adlewyrchu anghenion sgiliau ac amcanion ein cymunedau amlweddog. Tra bod cynnydd sylweddol a chalonogol ar hyn o bryd mewn dysgu cymunedol, gellir ystyried cyfleoedd yn amherthnasol. Mae nifer o sectorau o fewn cymunedau yn dal i feddwl nad yw dysgu 'ar gyfer pobl fel ni'.

Mae dull sy'n canolbwyntio ar y darparwr o ran cynllunio cwricwlwm yn dal i fod yn gyffredin. Er mwyn ehangu cyfranogiad, mae angen symud o'r traddodiad o diwtor a darparwr yn arwain datblygiad y cwricwlwm, lle datblygir cyrsiau yn ôl anghenion sefydliadol neu lle mae cyrsiau parod yn cael eu teilwra. Bydd cael dysgwyr i gymryd mwy o ran yn y broses o gynllunio'r cwricwlwm yn cynyddu dealltwriaeth ynghylch diddordebau ac anghenion dysgu. Bydd hefyd yn gwella ansawdd y systemau cefnogi dysgwyr ac yn ehangu datblygiad a chof da.

Dylai prosesau cynllunio'r cwricwlwm ymateb yn rhagweithiol i amrywiaeth ddiwylliannol ac ethnig. Dylid gosod mwy o bwyslais ar ddatblygu dealltwriaeth a gwybodaeth y darparwr ynghylch anghenion a chyd-destunau dysgu'r grwpiau cymunedol gwahanol. Gyda rhai grwpiau, bydd angen datblygu cyrsiau unigol ac ym mhob sefyllfa, byddai'n hanfodol sicrhau bod deunyddiau dysgu a gweithgareddau hyrwyddol yn ddiwylliannol berthnasol. Yn yr un modd, er mwyn cynorthwyo pobl sydd yn anabl, rhaid i'r broses o gynllunio'r cwricwlwm ymgorffori strategaethau i sicrhau bod systemau cefnogi dysgwyr digonol yn bodoli ym mhob profiad dysgu, lle bynnag neu sut bynnag y gwnaed y dysgu.

Adnoddau

Mae angen cynyddu hyblygrwydd o ran adnoddau dysgu cymunedol, drwy sicrhau bod cyfleoedd dysgu anffurfiol gwerthfawr ar gael yn hawdd i ddysgwyr cam cyntaf, gyda dewisiadau i ddatblygu sy'n hawdd eu cyrraedd. Wrth edrych ar wybodaeth y darparwr ar gwrs, mae'r dewis o gyfleoedd dysgu cymunedol yn ymddangos yn ddiddiwedd ond yn aml, mae gweithredu'r dysgu wedi'i gyfyngu gan ofynion y darparwyr am niferoedd lleiaf y dosbarth a diffyg tiwtoriaid cymunedol. Yn aml, ni weithredir rhan sylweddol o'r cwricwlwm cymunedol a gynllunnir sy'n awgrymu nad yw'r mecanweithiau cyllido ar gyfer y dysgu ac anghenion dysgu cymunedol yn cyd-fynd. Fe allai hefyd ddangos nad yw'r dysgu a gynigir yn cwrdd ag anghenion sgiliau a diddordebau'r cymunedau.

Bydd darparu adnoddau corfforol o ansawdd ar gyfer dysgu cymunedol megis cyfarpar a chyfleusterau a man addas yn bwysig. (Gweler Canllawiau Arfer Da Anelu'n Uchel tud 14/15.) Deallwn fodd bynnag, y bydd cyfyngiadau i sicrhau'r dewis llawn o wasanaethau a chyfleusterau ym

mhob lleoliad dysgu cymunedol. Rhaid i drafodaethau gyda dysgwyr felly fod yn realistig, gan gydnabod yr hyn nad yw'n bodoli ond hefyd gan annog trafodaethau gyda darparwyr gwasanaethau a chyfleusterau eraill er mwyn mwyhau adnoddau ar gyfer cefnogi dysgwyr a dysgu.

Bydd ymateb hyblyg i anghenion dysgu'r cymunedau yn gofyn, wrth gwrs, am newid ar ran cyllidwyr a gwneuthurwyr polisi. Bydd hefyd yn gofyn am ymrwymiad ar ran darparwyr i wella prosesau gwerthuso ac i ddarparu tystiolaeth o fuddion allgymorth yn nhermau ehangu cyfranogiad, datblygiad, cof da a boddhad dysgwyr.

Arfer Da wrth Gynllunio Cwricwlwm:

- Strwythurau cyrsiau sy'n ymgorffori
  - sesiynau penodol ar gyfer trafod a myfyrdod
  - amrywiaeth o fodiwlau craidd/dewisol – yn cynnig dewis i'r tiwtor/ dysgwr
  - hyblygrwydd wrth ddysgu ac addysgu
  - adborth dysgwyr i ansawdd y cwrs/profiad dysgu
  - argymhellion dysgwyr ar gyfer datblygiadau cyrsiau newydd/newid cyrsiau
  - cyfleoedd i ystyried datblygiad dysgu i'r cam nesaf
- Prosesau asesu megis adolygu cyfoedion, hunanasesiad, portffolios, llyfrau log, cyflwyniadau a dyddlyfrau sy'n annog dysgwyr i
  - gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu
  - canolbwyntio ar faterion bywyd go iawn a phrosesau gwneud penderfyniadau
  - caniatáu myfyrdod a dysgu dwys
- Cyflwyno tiwtoriaid a rhaglen barhau datblygiad proffesiynol er mwyn
  - datblygu sgiliau trafod
  - ymrwymiad i ddemocratiaeth dysgwyr
  - adolygiad parhaol o strategaethau dysgu ac addysgu
  - annog newyddbethau megis defnyddio cyfrwng newydd i wella dysgu
- Systemau cefnogi tiwtoriaid yn cynnwys
  - goruchwyliaeth ddigonol

- adolygu cyfoedion
- deunyddiau dysgu arloesol
- systemau cyfathrebu effeithiol a chefnogaeth weinyddol

➲ Systemau Cefnogi Dysgwyr sy'n fwy na disgwyliadau gofal cwsmer gyda
- chyfleoedd am gynrychiolaeth i ddysgwyr ar bwyllgorau rheoli
- tiwtoriaid personol i helpu gyda materion cefnogi academaidd
- gwasanaethau cynghori a lles
- gwasanaethau cefnogi anabledd
- arweiniad addysgiadol diduedd a hygyrch

➲ Gwasanaethau Gwybodaeth sy'n hygyrch ac effeithlon:
- pecynnau cyflwyno i ddysgwyr a thiwtoriaid
- gwefan gyda gwybodaeth gyffredinol am wasanaethau a chyrsiau
- gwybodaeth am gyrsiau – llawlyfrau ac adnoddau ar-lein
- cefnogaeth llyfrgell a gwybodaeth
- gwasanaethau cyngor gyrfaol
- swyddogion cefnogi myfyrwyr
- gwasanaethau derbynfa

➲ Systemau Gwerthuso a Monitro sy'n sicrhau datblygiad gweithredu mewn ymateb i adborth o ddysgwyr a thiwtoriaid

Strategaethau Dysgu ac Addysgu

Mae strategaethau dysgu ac addysgu yn ffactorau pwysig o fewn cwricwlwm o ansawdd. Bydd tiwtor da yn cydnabod bod addysgu yn brofiad a rennir rhwng y dysgwr a'r tiwtor ac yn anelu am ddull democrataidd a drafodwyd sydd yn ymateb i anghenion gwahanol y dysgwyr.

Mi fydd yn bwysig, wrth i gynlluniau dysgu ddatblygu, ystyried sut y byddai'n well gan unigolion ddysgu ac i fabwysiadu strategaeth ddysgu hyblyg, gan osod llai o bwyslais ar ddysgu traddodiadol sy'n seiliedig ar lyfrau, a defnyddio'r ystod o adnoddau dysgu er mwyn gwella'r profiad dysgu.

Mae strategaethau dysgu ac asesu sy'n cysylltu dysgu â sefyllfaoedd go iawn bywyd ac yn ymateb yn arloesol i ddewisiadau dysgu gwahanol, yn fwy tebygol o ddenu'r rheiny sy'n colli cysylltiad â dysgu. Bydd dulliau o'r fath hefyd yn mwyhau perchenogaeth y broses ddysgu; datblygu meddwl beirniadol a sylfaen wybodaeth ddyfnach.

Hefyd, mae angen i ddulliau a ddefnyddir er mwyn hwyluso dysgu fod yn ddigon hyblyg i ymateb i anghenion dysgwyr unigol. Byddai'n fuddiol i ymgorffori prosesau er mwyn nodi gofynion cefnogaeth megis sgiliau astudio neu gefnogaeth ddyslecsia ac er mwyn sicrhau bod yr ystod o gymorth arbenigol ar gael.

Arfer Da o fewn Strategaethau Dysgu ac Addysgu:

- Tiwtoriaid sydd wedi'u hyfforddi'n dda a'u cefnogi o fewn eu datblygiad proffesiynol parhaol
- Dulliau dysgu sy'n hyrwyddol, hyblyg ac yn gallu cefnogi trafodaeth

Yn cynnwys:

- Cytuno ar gontractau dysgu gydag amcanion/canlyniadau dysgu pendant
- Rhoi amser ar gyfer myfyrdod ar ddiwedd sesiynau a chyrsiau
- Helpu datblygu sgiliau trafodaeth mewn grwpiau o ddysgwyr
- Annog a chefnogi datblygiad dysgu drwy drafodaeth unigol a grwp
- Parchu profiad a gwybodaeth flaenorol dysgwyr
- Hwyluso gweithdai i fyfyrwyr ar yr hyn yr hoffent ei ddysgu
- Sicrhau cyd-destun dysgu a chwricwlwm cynhwysol sydd yn gymdeithasol a diwylliannol berthnasol
- Bod yn hyblyg wrth gyflwyno, gan sicrhau fod popeth yn addas i bawb
- Datblygu democratiaeth tiwtor drwy gyfleoedd ar gyfer adborth tiwtor a myfyrdod grwp cyfoedion
- Rhoi amser ar gyfer ystyried camau nesaf ac i drafod cyfleoedd datblygu

Enghreifftiau o systemau a phrosesau sydd yn galluogi democratiaeth dysgwyr

- Fforymau Dysgwyr a Chylchoedd Dysgwyr
- Cynrychioli myfyrwyr ar bwyllgorau rheoli, grwpiau cynllunio
- Cymdeithasau Myfyrwyr
- Arolygon Boddhad Dysgwyr
- Gwerthusiadau ac adborth ar gyrsiau
- Systemau tracio myfyrwyr sy'n annog adborth
- Blwch awgrymiadau a sylwadau dysgwyr
- Dyddiau blasu, dyddiau agored a digwyddiadau gwybodaeth am y cyrsiau
- Llawlyfr myfyrwyr
- Undeb myfyrwyr
- Siarter y dysgwr, Hawl y dysgwr
- Gwasanaeth cefnogi myfyrwyr ar-lein
- Gwefannau cefnogi / gwybodaeth ryngweithiol ar gyrsiau
- Cysylltiad e-bost neu ffôn gyda Thiwtor Personol / Mentor
- Arweiniad, cyngor a gwybodaeth hygyrch

Buddion dull democrataidd a dull a drafodwyd

Bydd Strategaethau Cynllunio a Dysgu sy'n annog y dysgwr i gymryd rhan a phwysleisio trafodaeth yn fuddiol i ddysgwyr a darparwyr:

Buddion y Dysgwyr:

- Rhoi grym i ddysgwyr a chael gwared ar y syniad fod yr athro'n gwybod y cyfan
- Annog perchenogaeth a chyfrifoldeb y dysgwr
- Pwysleisio'r profiad cyfunol o ddysgu
- Datblygu arfer a sgiliau democrataidd ehangach

- Datblygu cwricwlwm sy'n cwrdd ag anghenion y dysgwr
- Helpu dysgwyr i oresgyn diffyg hyder neu brofiadau negyddol blaenorol
- Darparu profiadau dysgu diddorol, cyffrous a gwerthfawr
- Cynyddu cymhelliant i ddysgu
- Annog llwyddiant dysgwr a datblygiad dysgwr

Buddion y Darparwr:

- Sicrhau ansawdd drwy adolygiad a myfyrdod parhaol
- Gwthio datblygiadau'r cwricwlwm/darparu catalydd ar gyfer llwybrau dysgu newydd
- Helpu tiwtoriaid i fyfyrio am arfer a sicrhau cyrsiau addas
- Gwella cof da drwy roi cyfle i'r dysgwyr reoli eu dysgu
- Annog llwyddiant dysgwr a datblygiad dysgwr

Heriau

Bydd arfer da o fewn dysgu oedolion yn cynnwys dulliau i annog democratiaeth dysgwyr a thrafodaeth cwricwlwm rhwng dysgwyr a darparwyr y dysgu. Efallai y bydd rhai yn gweld y dull yn un heriol. Fodd bynnag, rydym ni o'r farn fod dull trafodaeth yn ychwanegu'n sylweddol at y broses o wella ansawdd. Mae strategaethau cwricwlwm sy'n cynnwys myfyrdod ac adborth gan y dysgwr a'r tiwtor yn ychwanegu'n fawr at lwyddiant dull datblygu ansawdd parhaol. Mae'r fath ddull yn cynyddu ymrwymiad y dysgwyr a'r tiwtoriaid ac yn ysgogi darparwyr i ddiweddaru cynnwys cwrs, datblygu cyfleoedd dysgu newydd a gwella systemau cefnogi dysgwyr.

Mae trafod y cwricwlwm yn fwy na darparu'r hyn y mae'r dysgwr yn gofyn amdano neu ddechrau o'r dechrau ac anghofio am yr holl strwythurau dysgu. Mae'r broses o drafod y cwricwlwm wedi'i hanelu'n fwy at roi grym i ddysgwyr a galluogi datblygiad gwybodaeth a phrofiad fel bod dysgwyr yn derbyn y dysgu sydd ei eisiau arnynt yn ogystal â'r dysgu nad ydynt eto'n ymwybodol fod ei eisiau arnynt.

Proses ddwyffordd yw trafodaeth ac mi fydd yn bwysig sicrhau realaeth. Bydd effeithiolrwydd y drafodaeth rhwng dysgwr a thiwtor yn dibynnu

ar faint o amser yr hoffent ei wario ar drafodaeth. Mewn unrhyw broses drafodaeth, mae angen i bob parti sy'n cymryd rhan weld buddion cyrraedd cytundebau a bod yn barod i gyfaddawdu. Mi fydd yn bwysig dod o hyd i'r sail gywir ar gyfer trafodaeth, cydnabod amrywiaeth dysgwr a thiwtor, a sicrhau bod y cynnyrch terfynol yn werthfawr i ddysgwyr, tiwtoriaid a darparwyr dysgu.

Er mwyn trafod y cwricwlwm bydd angen i diwtoriaid a dysgwyr ganiatáu amser ar gyfer myfyrdod ac adolygu a sicrhau bod dysgwyr yn cymryd rhan. Bydd newid y traddodiad o gynllunio cwricwlwm gan ganolfannau a thiwtoriaid yn gofyn am ddatblygiadau mewn sgiliau staff a systemau cyfundrefnol. Bydd hefyd yn bwysig cydnabod cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael a chytuno ar yr hyn a ellir ei gyflawni yn realistig.

Bydd cefnogaeth i ddatblygu sgiliau trafodaeth dysgwyr yn angenrheidiol. Mae pobl ddominyddol yn gallu atal trafodaeth wirioneddol o fewn grwp. Bydd angen cynnwys datblygiad sgiliau trafodaeth yn y sesiynau dysgu gan sefydlu rheolau sylfaenol er mwyn galluogi i bawb gael y cyfle i gyfrannu, datblygu a myfyrio.

Bydd yn bwysig cydnabod y bydd lefel y drafodaeth yn dibynnu ar natur a lefel y mater astudio. Ar lefel ddysgu anffurfiol a heb ei hachredu mae'n weddol hawdd cefnogi dull trafodaeth yn gyfan gwbl. Yng nghyd-destun dysgu mwy ffurfiol, bydd lefel y drafodaeth yn amrywio. Efallai y bydd gwrthdaro hefyd, lle bydd dysgwyr yn symud oddi wrth amgylchedd dysgu a drafodwyd i un llai hyblyg a bydd angen rheoli hyn yn effeithiol.

Mae dull a drafodwyd yn ychwanegu'n sylweddol at y broses o wella ansawdd.

Hyd yn oed pan fo strwythur cwricwlwm yn anhyblyg gyda:

Chanlyniadau dysgu penodol

Mater pwnc/cynnwys cwrs penodol

Gofynion canlyniadau asesiad ac achrediad penodol

Gallwch sicrhau dull a drafodwyd drwy:

- fabwysiadu strategaethau dysgu ac addysgu hyblyg a ellir eu haddasu i wahanol gyd-destunau dysgu
- trafod o fewn y dewisiadau astudiaeth pwnc ac asesiad
- bod yn hyblyg a dyfeisgar yn eich modd o hwyluso'r profiad dysgu
- canolbwyntio ar ddatblygu prosesau democrataidd sy'n rhoi grym i ddysgwyr
- galluogi dysgwyr i gael y gorau o'r profiad dysgu
- galluogi dysgwyr i ddylanwadu ar benderfyniadau cynllunio'r cwricwlwm

Trafod y Cwricwlwm yn Ymarferol

Beth yw ystyr trafod y cwricwlwm yn ymarferol mewn gwirionedd?

Mae arfer presennol ymysg sefyllfaoedd dysgu cymunedol yn darparu tystiolaeth o ddargyfeiriad amrywiol iawn wrth drafod modelau. Gallai dysgwyr a darparwyr dysgu ymwneud â thrafodaethau megis: y tiwtor yn llunio cwrs fel ymateb i ddiddordebau a fynegir, y tiwtoriaid/dysgwyr yn trafod opsiynau o ddewis o fodiwlau blaenorol neu lle mae cyrsiau yn cynnwys modiwlau a'r dysgwyr yn dewis opsiynau.

Mewn rhai sefyllfaoedd, bydd dysgwyr yn ymwneud â llunio'r cwrs ond ni fydd hyn yn addas bob tro. Efallai na fydd gan y dysgwyr wybodaeth am y pwnc neu ddealltwriaeth o'r prosesau datblygu cwricwlwm sydd eu hangen i drafod yn llawn. Gallai gweithgareddau lle mae'r dysgwr yn ymwneud â'r broses o lunio'r cwrs felly, fod yn llai cyffredin, ar wahân i lefel ddysgu anffurfiol neu heb ei hachredu.

Enghreifftiau o Fodelau Posib i Drafod y Cwricwlwm

- Darparwr yn llunio unedau/modiwlau fel ymateb i ddysgwyr yn mynegi eu diddordeb mewn pwnc
- Grwpiau dysgwyr yn trafod ymysg ei gilydd a/neu gyda'r ganolfan/ darparwr, pa ddewis o unedau/modiwlau sydd eisoes yn bodoli, a ddosbarthir
- Llunio unedau/modiwlau fel bod dewisiadau cynnwys er mwyn i'r dysgwyr allu penderfynu
- Unedau/modiwlau yn fframwaith ar gyfer y dysgu ac o fewn y fframwaith gellir trafod y cynnwys
- Grwpiau dysgwyr yn ymwneud â llunio unedau/modiwlau

Mae'r rhain yn fathau o weithgarwch trafod a allai gymryd lle o fewn cyd-destun cwricwlwm. Gallai trafodaeth cwricwlwm gynnwys un neu gyfuniad o brosesau o'r fath. Bydd gwahanol sefyllfaoedd yn ymgorffori gwahanol lefelau o weithgarwch trafod, gyda rhai gweithgareddau yn fwy cyffredin nag eraill.

Bydd materion Democratiaeth Dysgwyr a Thrafodaeth Cwricwlwm yn cael effaith ar bob lefel a bydd dulliau gwahanol yn berthnasol i sefyllfaoedd gwahanol. Bydd hwyluso datblygiad prosesau megis fforymau dysgwyr, systemau adborth dysgwyr a sesiynau adolygu cyrsiau yn sicrhau llwybrau hygyrch i gyfathrebu gyda dysgwyr a chefnogi'r broses o ddarparu cwricwlwm o ansawdd a sicrhau democratiaeth dysgwyr.

Bydd ymroddiad i drafodaeth ar lefel gyfundrefnol yn ogystal ag unigol yn bwysig. Bydd nifer o sefydliadau a grwpiau cymunedol yn gweithredu fel broceriaid dysgu diduedd dros eu cymunedau, yn gweithio i gael adnoddau oddi wrth amryw o ddarparwyr dysgu megis awdurdodau unedol, colegau, prifysgolion a sefydliadau hyfforddi preifat. Er mwyn trafod dysgu perthnasol gyda chymunedau, bydd yn bwysig datblygu partneriaethau effeithiol a sefydlu gweithgorau darparwyr sy'n galluogi adolygu'r cwricwlwm a darparu cyfleoedd i gydnabod ac ymateb i anghenion y dysgwyr.

Mae Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd, yn cynnwys darparwyr dysgu cymunedol ac Addysg Uwch yn ardal Gorllewin Cymru

a'r Cymoedd o fewn y DU, yn enghraifft dda o ddull trafod ar lefel gyfundrefnol. Mae'r bartneriaeth yn canolbwyntio ar ehangu mynediad i addysg uwch drwy gydweithio. Wrth hybu'r gwerthoedd a rennir o 'ddod â dysgu yn agosach atoch', ymateb i anghenion cymunedol a galluogi partneriaeth gyfartal gyda chymunedau, mae'n darparu llwyfan ar gyfer trafodaeth ac yn gweithio er mwyn newid y sefyllfa - o ran y cyflenwad a'r galw am ddysgu.

Mae partneriaethau cymunedol yn aelodau allweddol o grwpiau cynllunio, gan reoli datblygiadau yn weithredol, bwydo gwybodaeth ar anghenion a dylanwadu datblygiad cwricwlwm newydd a systemau cefnogi sydd yn addas i ddysgwyr cymunedol. Ni fyddai'r fenter yn llwyddo heb gyfranogiad gweithredol partneriaethau cymunedol, gan sicrhau datblygiadau sydd yn ystyrlon ac yn fuddiol i bobl leol. Mae dull PPGC wedi cael effaith sylweddol ar isadeiledd dysgu cymunedol yr ardal, gyda chyfleoedd dysgu uwch, o gyrsiau blasu heb eu hachredu, i lefel gradd sydd ar gael erbyn hyn mewn nifer o ganolfannau dysgu cymunedol.

Astudiaethau Achos – Trafod y Cwricwlwm

Llunio'r Cwricwlwm – Safbwynt y Dysgwyr.

Ar ddiwedd pob tymor, mae dysgwyr o bob cangen Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn cwrdd â threfnwyr tiwtoriaid a gweithwyr datblygu er mwyn adolygu dysgu a llunio cwricwlwm ar gyfer y tymor nesaf. Yn ogystal â thrafod cynnwys y cwricwlwm, mae dysgwyr hefyd yn ymwneud â phenderfynu ar diwtoriaid dewisol a'r dewis o wasanaethau cefnogi gofynnol megis cyfleusterau meithrinfa. Cyn gynted ag y bydd cytundeb ynghylch y gofynion, datblygir rhaglen ddysgu. Mae dysgwyr yn aruthrol o gadarnhaol ynghylch y buddion o allu dweud eu dweud ac ymwneud â chynllunio gan hefyd gydnabod y dysgu sydd yn digwydd drwy'r broses.

Safbwynt dysgwyr Cymdeithas Addysg y Gweithwyr ar ymrwymiad CAG i drafodaeth a democratiaeth ar lefel leol:

'Gwych', 'does dim amheuaeth ei fod yn digwydd',

'Mae'r gangen yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn'

'Mae'r broses yn effeithiol, mae bob amser wedi gweithio'

'Mae pawb yn cael y cyfle i leisio'u barn yn y cyfarfodydd cynllunio, i ddewis yr hyn yr hoffent ei wneud ac i ba lefel'

'Mae'r rhan fwyaf o bobl yn mynegi barn. Rydw i'n gallu mynegi fy marn a gwneud gwahaniaeth.'

'Mae pobl a oedd yn eithaf swil a thawel yn gallu cymryd rhan nawr ac maent wedi symud ymlaen. Maent wedi'u hannog i fynegi eu barn eu hun ac wedi cael y cyfle i wneud mwy.'

Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru

www.weasouthwales.org.uk

Trafod dysgu cymunedol – Yn dechrau lle mae'r bobl

Cam 1: Dod i adnabod eich dalgylch:

- Ewch i weld beth sydd yno/hyrwyddwch eich gwaith yn yr ardal e.e. cylchlythyr cymunedol

- Datblygwch wybodaeth am/cysylltiadau gyda
- arweinwyr, grwpiau a sefydliadau cymunedol
- darparwyr dysgu, gwasanaethau cefnogi a mentrau cysylltiedig
- strwythurau cefnogi dysgwyr a datblygu cwricwlwm
- partneriaethau strategol i ehangu adnoddau'r ardal

Cam 2: Canfod yr anghenion dysgu a chefnogi:

- Canfod bylchau yn y ddarpariaeth/dadansoddi anghenion y dysgwr drwy ddatblygu cymunedol:
- rhestrau o ddymuniadau'r dysgwyr
- lansiadau dysgu/dyddiau blasu'r cwrs
- trafodaethau grwp
- arolygon dysgu
- llefydd cymunedol megis caffi cymunedol, sesiynau galw heibio ac ymgynghoriadau cymunedol

- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu
- adnoddau cefnogi dysgwyr
- gwasanaethau ar gyfer dysgwyr gydag anableddau, dyslecsia, anghenion sgiliau sylfaenol
- lleoliadau dysgu cymunedol

Cam 3 Datblygu cyfleoedd dysgu:

- Sefydlu fforwm lleol o ddarparwyr dysgu a thrafod

- opsiynau dysgu anffurfiol, sy'n cyd-fynd â gofynion dysgwyr
- llwybrau datblygu dysgu, yn berthnasol i anghenion dysgwyr

➲ Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu

- strategaeth farchnata h.y. pamffledi, taflenni, dyddiau agored am gyrsiau lleol
- gweithgareddau dysgu anffurfiol er mwyn targedu grwpiau penodol o ddysgwyr
- systemau gwerthuso a monitro i fesur effaith/sicrhau ansawdd

➲ Gweithio gyda phartneriaid i drafod

- cefnogaeth briodol ar gynghori ac arweiniad
- gwasanaethau priodol i gefnogi dysgwyr
- cefnogaeth briodol ar gyfer tiwtoriaid cymunedol

Cam 4 Cynnal a datblygu cyfleoedd:

➲ Adeiladu ar strategaethau trafodaeth a phartneriaethau er mwyn:

- adeiladu cynhwysedd sefydliadau cymunedol/lleoliadau dysgu
- ehangu'r dewis o lwybrau datblygu a dysgu
- cynnal gwasanaethau cefnogi myfyrwyr ac arweiniad hygyrch
- datblygu cynhwysedd tiwtoriaid lleol
- datblygu fforwm/rhwydwaith i ddysgwyr
- dathlu llwyddiant dysgwyr ac annog dysgwyr newydd

Anturiaeth Dyffryn Aman

www.ammanvalleyenterprise.co.uk

Dulliau Amlddiwylliannol i Gynghori

Mae hwn yn gwrs achrededig o fewn y rhaglen Gradd BA (Anrh) Ran Amser ac yn cynnig llawer iawn o hyblygrwydd, cyfleoedd i'r myfyriwr ddewis a lle i drafod a chymryd perchenogaeth o'r profiad dysgu. Gall myfyrwyr drafod pynciau penodol i'w harchwilio o'r cwricwlwm ehangach a chael dewis o ddulliau asesu, naill ai traethawd neu ddyddlyfr. Mae myfyrwyr hefyd yn ymgymryd â phrosiectau unigol ac yma eto, mae pwyslais ar ddewis a thrafodaeth, gyda'r myfyrwyr yn dewis eu testun eu hun o'r detholiad o bynciau a gynigir.

Adran Addysg Barhaus Oedolion, Prifysgol Cymru Abertawe

www.swan.ac.uk/dace

Tystysgrif Addysg Uwch (Astudiaethau Agored Cyfunol)

Mae'r cwrs hwn wedi'i deilwra i ateb gofynion dysgwyr sy'n oedolion a hoffai ddychwelyd at astudio a/neu ddysgu er mwyn pleser. Mae cefnogi myfyrwyr yn rhan ganolog o'r rhaglen ac fe gynigir gweithdai sgiliau astudio yn rhad ac am ddim er mwyn sicrhau fod pawb yn teimlo'n hapus a hyderus am ddysgu. Mae'r rhaglen hefyd wedi'i llunio i ddarparu awyrgylch dysgu ymlaciedig ac anffurfiol. Mae dewis yn elfen hanfodol gyda 60 cwrs byr, fel TG, Hanes Celf, Seicoleg, Troseddeg, Gwleidyddiaeth ac Athroniaeth. Ni all bob un o'r rhain fod ar gael i fyfyrwyr eu trafod gyda gweithwyr datblygu a thiwtoriaid ar opsiynau astudio.

Mae pob cwrs yn cynnwys amrywiaeth o opsiynau asesu megis, traethodau, adeiladu portffolio, seminarau, dyddlyfrau myfyriol a chyflwyniadau poster. Mae cefnogi sgiliau astudio yn sicrhau bod myfyrwyr yn hapus bod eu haddysgu yn cael ei gydnabod drwy asesiad.

Prifysgol Cymru Casnewydd, Prifysgol Gymunedol Dwyrain y Cymoedd

www.cuveast.newport.ac.uk

Dysgwyr yn helpu creu cyfleoedd dysgu newydd

Mae ein canolfan yn datblygu prosiect cynhyrchu Fideo a CD amlgyfrwng gyda chymorth ceiswyr lloches, aelodau o'r gymuned a sefydliadau partner er mwyn:

- Dal deunyddiau gwybodaeth a thystiolaeth glywedol am fywydau pobl
- Gwella sgiliau iaith a chysylltiadau rhwng aelodau o'r gymuned
- Amlygu'r materion sy'n wynebu pobl sy'n dymuno byw'n lleol
- Rhannu profiadau a helpu pobl i ddatblygu ystod o sgiliau cyfryngau newydd

Mae'r datblygiadau yn seiliedig ar fodel a drafodwyd yn gyfan gwbl ac fe gynorthwyodd y cyfranogwyr i lunio a threfnu gweithgareddau, trefnu digwyddiadau a gweithgareddau dysgu a gwerthuso'r profiadau a'r sgiliau a ddatblygwyd. Bydd y dysgwyr yn cymryd rhan yn y cyfleoedd dysgu newydd canlynol:

- dod â grwpiau cymunedol o ddiddordebau tebyg at ei gilydd er budd y naill a'r llall
- trafod pa weithgareddau a sut i ymgymryd â nhw
- datblygu sgiliau iaith a thechnoleg newydd
- casglu deunyddiau, tystiolaethau a chyfweliadau cymunedol
- cynhyrchu cofnodion, ffilmiau, tapiau gwybodaeth, deunyddiau clyweledol o bob math
- cynhyrchu gwefan a chylchlythyr i hyrwyddo a dathlu llwyddiant

Canolfan Arc, Ymddiriedolaeth Ddatblygu Blaenymaes, Portmead a Phenplas, Abertawe

Dysgu ac Addysgu gan Ddefnyddio Technoleg Newydd

Mae hwn yn gwrs addysg uwch achrededig gyda maes llafur a dull dysgu hyblyg. Mae cyfranogwyr yn cael mynegi barn ar y dechnoleg a drafodir ac a ddefnyddir yn ystod y cwrs gan adlewyrchu eu gwybodaeth bresennol a'u hamcanion dysgu. Mae sesiwn trafodaeth grwp wedi'i chynnwys ar ddechrau'r cwrs er mwyn dysgu mwy am y cyfranogwyr a'r hyn y maent yn ceisio'i gyflawni.

Mae cyfleoedd i fyfyrio a gwerthuso yn parhau trwy gydol y rhaglen gan ganolbwyntio ar sicrhau bod cynnwys y cwrs yn adlewyrchu anghenion datblygu sgiliau. Mae'r cwrs yn ddigon hyblyg i elwa o sgiliau presennol y cyfranogwyr. Er enghraifft, ar un cwrs, roedd myfyriwr a oedd yn arbenigwr cynadledda fideo wedi hwyluso sesiwn ar yr agwedd hon o'r rhaglen.

Budd arall yw amgylchedd cefnogi dysgu rhithwir, adnodd ar-lein sy'n darparu deunyddiau cwrs, nodiadau tiwtoriaid a systemau trafodaeth ac adborth i fyfyrwyr a thiwtoriaid allu rhoi sylwadau ar gynnwys y cwrs a'u profiadau dysgu.

Adran Addysg Barhaus Oedolion, Prifysgol Cymru Abertawe

www.swan.ac.uk/dace

'Meithrin Eich Hun'

Ym myd dysgu cymunedol, mae staff canolfannau a thiwtoriaid da yn werth y byd. Nhw yw prif ganolbwynt trafodaeth gyda dysgwyr ac maent yn chwarae rôl allweddol wrth ganfod anghenion a datblygu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan.

Yng Nghanolfan Hyfforddi Glyn Nedd, mae 'meithrin tiwtoriaid ein hun' wedi bod yn bolisi ers amser maith h.y. hyfforddi myfyrwyr addawol er mwyn iddynt fod yn diwtoriaid eu hun yn y pendraw.

Y manteision yw:

- eu bod yn aml yn bobl leol, ac yn gyfarwydd â'r gymuned leol
- roeddynt yn fyfyrwyr fel oedolion eu hun ac yn deall anghenion dysgwyr sy'n oedolion
- bod ganddynt deimlad o 'berthyn' o fewn y sefydliad ac yn deall ethos Canolfan Hyfforddi Glyn Nedd

Er enghraifft: Cyfrifon Cyfrifiadurol – Dechreuodd un o'n tiwtoriaid fel myfyrwraig yn y Ganolfan, ennill cymhwyster Cyfrifon Cyfrifiadurol ac Addysgu ac erbyn hyn mae'n gweithio yn y Ganolfan.

Mae hefyd gennym bolisi 'meithrin ein staff canolfan ein hun'. Y staff yw ein hased pwysicaf ac ein polisi yw rhoi cyfle i bob aelod o staff, o fewn eu horiau gwaith, i fynychu hyfforddiant er mwyn cynyddu eu sgiliau a'u gwerth i'n sefydliad ni. Er enghraifft:

Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Mewn partneriaeth â Choleg Nedd Port Talbot. Mae'r cwrs hwn wedi'i gynnal yng Nghanolfan Hyfforddi Glyn Nedd ers 4 blynedd. Mae dau o'r myfyrwyr bellach yn gweithio yn y Ganolfan, un fel Arweinydd Meithrinfa a'r llall fel cynorthwyydd gofal plant. Mae gan y ddau ohonynt gymhwyster Lefel 3.

PEOPLE INTO TECHNOLOGY (PIT). Mewn partneriaeth ag Adran Addysg Barhaus Oedolion, Prifysgol Cymru Abertawe, mae'r rhaglen hon wedi'i chynnal yn y Ganolfan ers dros 10 mlynedd. Daeth ein Swyddog Cyllid a dau o'n gweinyddwyr yn aelodau o staff ar ôl ennill y cymhwyster hwn. Mae Cadeirydd ein Pwyllgor Rheoli hefyd yn gyn-aelod o ddosbarth PIT.

Canolfan Hyfforddi Glyn Nedd

www.glynneathtc.org.uk

Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd

Datganiad Cenhadaeth

Rydym yn cadarnhau ein hymrwymiad i:

i ddyfeisio strategaethau addysg uwch a fydd yn ein cynorthwyo i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag eithrio ac amddifadiad gan gefnogi adfywio diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd cymunedau ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

ii darparu rhaglenni dysgu arloesol a strwythurau cyfarwyddo cefnogol i dargedu'r rhai sy'n cael eu heithrio ar hyn o bryd a lledaenu a chynyddu mynediad i ddysgu gan unigolion a grwpiau na fuont yn cymryd rhan cyn hyn.

iii cefnogi dilyniant i addysg uwch drwy ddatblygu cyfleoedd dysgu wedi'u seilio ar y diffiniad ehangaf o ddysgu gydol oes – dysgu anffurfiol, rhaglenni heb eu hachredu ac wedi'u hachredu

iv dod i gytundeb ar gydnabod cyflawniadau a chredydau ein gilydd

v adnabod a hyrwyddo modelau o arfer da sy'n pwysleisio dysgu ar y cyd a myfyriwr-ganolog wedi'u seilio yn y gymuned a lledaenu ein profiadau o bartneriaeth mewn dysgu wedi'i seilio ar y gymuned

vi datblygu strwythurau a fydd yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr a chymunedau gymryd rhan fel partneriaid cydradd, i drafod cwricwlwm sy'n addas i'w hanghenion ac i ddylanwadu ar ddatblygu rhaglenni dysgu a gwasanaethau cefnogi addas

vii rhoi statws cyfartal a pharch i'r holl gynrychiolwyr o fewn y bartneriaeth a chydnabod pwysigrwydd grwpiau cymunedol nad ydynt wedi'u cynrychioli'n uniongyrchol

viii cefnogi rhagoriaeth mewn ymchwil i ddysgu a chymunedau, er mwyn cyfrannu at ddatblygiadau partneriaeth

ix gwneud y defnydd gorau posib o adnoddau priodol ar draws y bartneriaeth, drwy strategaethau fel ceisiadau ar y cyd am gyllid, i ddatblygu rhaglenni dysgu integredig ac arloesol

x sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cyfathrebu â'i gilydd ac yn parchu gweithgareddau ei gilydd i gynyddu'r ymwneud ar draws y bartneriaeth gymaint â phosib

xi sicrhau bod holl weithgareddau'r bartneriaeth yn glynu at egwyddorion cyfleoedd cyfartal